------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ionawr 2018

Amser: 13.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

13.30

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

13.30 (Tudalen 1)

**CLA(5)-04-18 – Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5) 174 - Rheoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Rasio Moduron) (Cymru) 2018**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

**3.1 SL(5)175 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018**

(Tudalennau 2 - 12)

**CLA(5)-04-18 – Papur 2** – Rheoliadau

**CLA(5)-04-18 – Papur 3** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-04-18 – Papur 4** – Adroddiad

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 5 Llais Cryfach i Gymru – adroddiad drafft

13.35 (Tudalennau 13 – 71)

**CLA(5)-04-18 – Papur 5** – Adroddiad drafft

## 6 Y pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth: grwpiau trafod

14.30 (Tudalennau 72 – 209)

**CLA(5)-04-18** – Papur briffio'r Aelodau

**CLA(5)-04-18 – Papur 6** – Y papur cefndir a drafodwyd yr wythnos diwethaf, heb yr atodiadau

**CLA(5)-04-18 – Papur 7** – Nodyn cyngor cyfreithiol sy'n cwmpasu pwerau cydamserol a phwerau ar y cyd mewn meysydd datganoledig

**CLA(5)-04-18 – Papur 8** – Papur gan Michael Carpenter

**CLA(5)-04-18 – Papur 9** – Papur gan yr Athro Thomas Watkin

**CLA(5)-04-18 – Papur 10** – Papur gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru

**CLA(5)-04-18 – Papur 11** – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd, 16 Ionawr 2018

**CLA(5)-04-18 – Papur 12** – Blog Cymdeithas Hansard

**CLA(5)-04-18 – Papur 13** – Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr UE (Ymadael)

**CLA(5)-04-18 – Papur 14 –** Trawsgrifiad preifat o Fil yr UE (Ymadael) – Digwyddiad Rhanddeiliaid Preifat, 18 Medi 2017

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5 Chwefror 2018

# SL(5)174 – Rheoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Rasio Moduron) (Cymru) 2018

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r cyrff llywodraethu chwaraeon modur hynny sydd wedi'u hawdurdodi i roi trwyddedau o dan adran 12B o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru. Gall pobl y rhoddwyd trwyddedau iddynt wedyn wneud cais i awdurdodau priffyrdd am orchmynion sy'n awdurdodi digwyddiadau rasio moduron ar ffyrdd cyhoeddus.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Traffig y Ffyrdd

**Fe’u gwnaed ar:** 9 Ionawr 2018

**Fe’u gosodwyd ar:** 12 Ionawr 2018

**Yn dod i rym ar:** 2 Chwefror 2018

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Eitem 3.1

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 40 (Cy. 12)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi yng Nghymru, mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, Erthygl 21 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer amddiffyn rhag y peryglon sy'n deillio o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom a 2003/122/Euratom (OJ Rhif L 13, 17.1.14, t. 1).

Mae rheoliad 3 yn nodi na chaiff neb ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 4 yn nodi na chaiff neb fewnforio nac allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi ei ychwanegu ato'n fwriadol wrth ei gynhyrchu.

Mae rheoliad 5 yn darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4, ac y caniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar euogfarn yn y llys ynadon drwy ddirwy neu drwy garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 3 mis, neu'r ddau ohonynt.

Mae rheoliad 6 yn nodi mai dyletswydd pob awdurdod bwyd anifeiliaid yw gorfodi'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") (O.S. 2016/387 (Cy. 121)). Mae'r diwygiad yn dynodi'r Rheoliadau hyn yn "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" at ddibenion Rheoliadau 2016 fel, ymhlith pethau eraill, y caiff swyddogion awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau gwella am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 o'r Rheoliadau hyn ac y caiff person a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dramgwyddir gan benderfyniad i gyflwyno hysbysiad gwella apelio i'r llys ynadon. Mae'r diwygiad hefyd yn caniatáu, os cydymffurfir â gofynion penodol, i lys osod gorchymyn gwahardd/gorchymyn gwahardd brys ar weithredwr busnes bwyd anifeiliaid am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4, ac mae'n caniatáu i swyddogion awdurdodedig fynd i fangre nad yw'n annedd i ymchwilio i achos o beidio â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 ac i arolygu cynhyrchion, cymryd samplau ohonynt, a'u cadw neu ymafael ynddynt. Mae'r diwygiad hefyd yn caniatáu i berson sydd wedi ei gyhuddo o fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 i ddibynnu ar amddiffyniad diwydrwydd dyladwy mewn amgylchiadau penodol.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009") (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)). Mae'r diwygiad yn dynodi'r Rheoliadau hyn yn "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" at ddibenion Rheoliadau 2009. Ymhlith pethau eraill, mae'r diwygiad yn caniatáu i awdurdodau bwyd anifeiliaid rannu gydag awdurdodau bwyd anifeiliaid eraill unrhyw wybodaeth a geir ganddynt wrth iddynt orfodi'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 40 (Cy. 12)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018

*Gwnaed* *15 Ionawr 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *16 Ionawr 2018*

*Yn dod i rym* *6 Chwefror 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 66(1), 74A(1) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(**3**), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn amddiffyn

(**1**) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mewnosodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 84 gan O.S. 2004/3254.

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) na chynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau gwella treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora'r perfedd, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

iechyd y cyhoedd(**1**) a mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**2**).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (**3**) ac, yn achos darpariaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Chwefror 2018.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw awdurdod a nodir yn adran 67(1A) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 fel yr awdurdod sydd â'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu ddosbarth yn ôl y digwydd;

mae i "bwyd anifeiliaid" yr ystyr a roddir i "feed" yn Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

ystyr "sylwedd ymbelydrol" ("*radioactive substance*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu ragor o radioniwclidau nad oes modd diystyru ei actifedd neu ei grynodiad actifedd o safbwynt amddiffyn rhag ymbelydredd.

---

(**1**) O.S. 2008/1792.

(**2**) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treuliadwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perfedd.

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod darpariaethau ar gyfer rheoli gwariant sy'n ymwneud â'r gadwyn fwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, ac sy'n ymwneud ag iechyd planhigion a deunydd atgenhedlu planhigion (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae "mewnforio" ("*import*") ac "allforio" ("*export*") i gael eu dehongli yn unol â'r ystyron sydd i "importation" ac "exportation" at ddibenion Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**1**).

**Gwahardd arferion**

**3.** Ni chaiff neb ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid.

**4.** Ni chaiff neb fewnforio nac allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi ei ychwanegu ato'n fwriadol wrth gynhyrchu'r bwyd anifeiliaid hwnnw.

**Troseddau a chosbau**

**5.** Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i reoliad 3 neu reoliad 4 yn euog o drosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 3 mis, neu'r ddau ohonynt.

**Gorfodi**

**6.** Dyletswydd awdurdod bwyd anifeiliaid o fewn ei ardal yw gorfodi'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(**2**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), ar ôl y cofnod ar gyfer "Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016", mewnosoder—

"Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018".

**Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**3**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol), ar ôl paragraff (dd), mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(e) Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018."

(**1**) 1979 p. 2.
(**2**) O.S. 2016/387 (Cy. 121).
(**3**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Ionawr 2018

**EXPLANATORY MEMORANDUM TO**

**The Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Food Standards Agency (FSA) and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Member's Declaration**

In my view the Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018.

Vaughan Gething AM

Cabinet Secretary for Health and Social Services

16 January 2018

**EXPLANATORY MEMORANDUM TO**

**Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018**

## 1. Description

The Regulations transpose in relation to Wales a requirement in the EU Basic Safety Standards Directive (Council Directive 2013/59/Euratom) prohibiting the deliberate addition of radioactive substances in the production of animal feeding stuffs and prohibiting the import of animal feeding stuffs to which radioactive substances have been added.

## 2. Matters of Special Interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None.

## 3. Legislative Background

The powers enabling the Regulations to be made are conferred by sections 66, 74A and 84 of the Agriculture Act 1970 and section 2(2) of the European Communities Act 1972, for the purposes of which the Welsh Ministers are designated by SI 2005/1971 in relation to measures relating to animal feed.

The powers given by the Agriculture Act 1970, which were vested in UK Government Ministers prior to devolution, were transferred to the National Assembly for Wales in 1999 by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672) and were subsequently transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

The Regulations are to be subject to the negative procedure. Paragraph 2(2) of Schedule 2 to the 1972 Act provides that regulations that are made under section 2(2) of the same Act may be subject to the negative or affirmative procedure. In this case, in light of the fact that the section 2(2) powers are being combined with other powers (i.e. those in the 1970 Act), and the fact that the Regulations do not involve substantial government expenditure or any other particularly sensitive matters, it is considered appropriate to subject the Regulations to the negative procedure.

In accordance with Article 33 of the Euratom Treaty, the draft Regulations were notified to the European Commission and a three-month standstill period was observed before the Regulations were made.

## 4. Purpose and Intended Effect of the Legislation

The objective of the Regulations is to:

- prohibit the deliberate addition of radioactive substances in the production of animal feeding stuffs, and prohibit the import or export of animal feeding stuffs to which radioactive substances have been added;
- provide the necessary enforcement powers to ensure compliance.

## 5. Consultation

An informal consultation was carried out with key stakeholders in industry, farming and enforcement authorities in early summer 2017. This established that no operators in Wales were known to be deliberately adding radioactive materials to animal feed or importing animal feed to which radioactive materials had been deliberately added.

A formal public consultation exercise was carried out by the Food Standards Agency (FSA) from 23 August to 4 October 2017. The FSA in Wales received two responses.

One response from local government sought guidance on the implementation of the Regulations. This will be provided in due course. Enforcement sanctions will be consistent with those provided to enforcement authorities by existing animal feed Regulations.

The Office of the Government Chemist provided some advice on testing and verification methods and potential technical issues to be addressed in the enforcement of the Regulations. This will be considered when advising local authorities.

Neither of these responses required amendment to the draft Statutory Instrument, nor highlighted any costs that arise out of these Regulations.

## 6. Regulatory Impact Assessment

Because no operators in Wales are known to be currently adding radioactive substances to feed (or importing such feed), it is not considered that there will be any costs incurred in the implementation of the Regulations, either by Government, enforcement authorities or the feed industry. Enforcement sanctions will be consistent with those provided to enforcement authorities by existing animal feed Regulations.

# SL(5)175 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo, yng Nghymru, mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, Erthygl 21 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n deillio o amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom a 2003/122/Euratom.

Mae'r Rheoliadau:

- yn gwahardd ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid;
- yn gwahardd mewnforio neu allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi'i ychwanegu'n fwriadol ato wrth gynhyrchu;
- yn darparu iddi fod yn drosedd methu â chydymffurfio â'r gwaharddiadau a nodir yn y Rheoliadau; ac
- yn cynnwys rhwymedigaethau ynghylch gorfodi'r Rheoliadau a diwygiadau technegol ynghylch monitro a gorfodi.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar y rhinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ar y cyd â phwerau galluogi yn Neddf Amaethyddiaeth 1970. Mae Deddf 1972 yn rhoi disgresiwn ynghylch pa un ai'r weithdrefn negyddol ynteu'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai fod yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn, ond mae Deddf 1970 yn gwneud y weithdrefn negyddol yn ofynnol. Dewiswyd y weithdrefn negyddol, sy'n ymddangos yn briodol o ystyried:

1. y cyfuniad o bwerau y cyfeirir atynt; a
2. nad yw'r Rheoliadau'n cynnwys gwariant sylweddol gan y llywodraeth.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r dadansoddiad canlynol wedi'i seilio ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Ionawr 2018.

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" o dan gymal 2 o'r Bil, felly bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu cadw fel cyfraith ddomestig a byddant yn parhau i gael effaith yng Nghymru o'r diwrnod ymadael ymlaen. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r Rheoliadau hyn er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael â'r UE, yn amodol ar rai cyfyngiadau (er enghraifft, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i wneud rhywbeth sy'n anghyson ag addasiadau i "ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir" a wneir gan Weinidogion y DU o dan y Bil).
2. Mae'r Rheoliadau'n diffinio "bwyd anifeiliaid" trwy gyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE, hy Rheoliad 178/2002 yr Undeb Ewropeaidd sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd. O dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd) bydd y Rheoliad hwnnw gan yr UE yn cael ei rewi a bydd yn ffurfio rhan o'r gyfraith a gedwir gan yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwrnod gadael yr UE. Bydd Rheoliad yr UE o fewn corff cyfraith yr UE a gedwir gan y DU, ac ni ellir ond ei ddiwygio gan Weinidogion y DU a Senedd y DU, felly bydd Gweinidogion y DU neu Senedd y DU yn gallu newid ystyr "bwyd anifeiliaid". Ni fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw bwerau i ddiwygio unrhyw elfen o Reoliad yr UE yn y modd y caiff ei weithredu yng Nghymru.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**25 Ionawr 2018**

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon